# Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Gorffennaf '17

## Ysgol Awel y Mynydd

***Mae'r gwaith bron a gorffen yn barod i drosglwyddo'r ysgol newydd mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd ym Medi 2017.***



Mae Read Construction yn nesáu at gwblhau ysgol newydd Awel y Mynydd a fydd yn cael ei throsglwyddo i'r Awdurdod Lleol yn Awst 2017. Gwaith terfynol a wneir yn bresennol yn cynnwys profi'r holl offer, addurno mewnol, glanhau a gwaith allanol a fydd oll yn sicrhau y bydd yr ysgol gynradd newydd gyda lle i 432 disgybl yng Nghyffordd Llandudno yn barod i ddisgyblion a staff ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym Medi.

Dywedodd Matthew Nicholas, Rheolwr Prosiect o Read Construction *"Mae'r gwaith ar yr adeilad ysgol a gwaith allanol yn datblygu'n dda tuag at gwblhau ar ddiwedd yr haf hwn, o ganlyniad i ymroddiad parhaus gan bawb."*

Bydd yr ysgol newydd yn cymryd lle Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed fel rhan o raglen Ysgolion 21ain Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ym Mand A. Y mis hwn, mae disgyblion o'r ddwy ysgol wedi ymweld â'r ysgol newydd i ymgyfarwyddo gyda'u hamgylchedd newydd. Roedd y disgyblion wrth eu boddau gyda'u hysgol newydd a bu i rai hyd yn oed ofyn a allent fyw yn yr ysgol! Yn ystod eu hymweliad, cafodd capsiwl amser ei selio ar y safle a oedd yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am yr ysgol, yr ardal leol a bywyd yn 2017.

Dolen i dudalen Facebook prosiect Read: https://www.facebook.com/LlandudnoJunctionSchool/

Gwefan: http://www.readconstruction.co.uk/sectors/view/llandudno_junction_school

